

Rhaglen 1: (CONNECT)

Mae gwasanaeth CONNECT Ceredigion wedi bod yn "fendith" i mam, dywed merch cleient CONNECT a oedd wedi cwmpo sawl gwaith.

Mae merch un o gleientiaid CONNECT Ceredigion wedi disgrifio'r gefnogaeth a ddarperir drwy'r gwasanaeth 24/7 fel "Bendith" i'w mam, a oedd wedi cwmpo sawl gwaith gartref.

*Cafodd mam Lowri, sy'n 70 oed, ei chyfeirio at wasanaeth CONNECT ym mis Mai 2021, gan un o Swyddogion Technoleg Llesiant Delta a oedd wedi ymweld â'i chartref i osod offer Gofal trwy Gymorth Technoleg ychwanegol, gan ei bod wedi cwmpo sawl gwaith gartref.

Tra oedd yno, rhannodd Lowri ei phryderon am ei mam gan ei bod yn cwmpo'n fwy aml yn ddiweddar. Yna, dywedodd y Swyddog Technoleg wrthi am y gwasanaeth CONNECT a pha gymorth y gallai'r teulu ei gael, gan gynnwys mynediad i Dîm Ymateb Cymunedol 24/7 i gynorthwyo gydag unrhyw gwympiadau, galwadau llesiant rheolaidd, cymorth digidol ac offer Gofal trwy Gymorth Technoleg wedi'u teilwra i anghenion penodol ei mam.

Fel rhan o gefnogaeth offer Gofal trwy Gymorth Technoleg CONNECT, mae mam Lowri wedi cael synhwyrdd cwympiadau y gellir ei wisgo ar ei harddwrn. Mae'n gwisgo'r ddyfais bob dydd gan roi tawelwch meddwl iddi hi ei hun a'r teulu bod cymorth ar gael, pe bai ei angen arni, ddydd a nos.

Dywedodd Lowri, "Pan mae mam wedi cwmpo yn y gorffennol, mae tuedd iddi fwrw ei phen a fyddai hi ddim yn cofio pwyso ei larwm gwddf. Gan fod ganddi synhwyrdd cwympiadau, mae hyn yn golygu y bydd yn rhoi gwybod yn awtomatig ei bod hi wedi cwmpo a bydd cymorth yn cael ei anfon ati ar unwaith, gan roi tawelwch meddwl i ni."

Dywedodd Lowri mai un o uchafbwyntiau'r gwasanaeth CONNECT yw ei fod wedi galluogi ei mam i barhau i fyw'n annibynnol gartref.

"Mae fy mam wastad wedi bod yn fenyw annibynnol," esboniodd Lowri. "Pe bai hi byth yn gorfod gadael ei chartref, ni fyddai'n ymdopi. Felly, mae cael y gwasanaeth hwn wedi golygu ei bod yn gallu aros gartref i fyw'n annibynnol. Fel teulu, allwn ni ddim diolch digon i Delta CONNECT am y lefel uchel o wasanaeth a ddarperir a'r sicrwydd y mae'n ei roi i ni i gyd. Byddwn ni'n ddiolchgar am byth."

*Newidiwyd enwau er mwyn diogelu manylion personol y defnyddwyr gwasanaeth.